# Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
# **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

Annwyl Rhiant/Gwarchodwr

Fel rhan o ymdrechion y Llywodraeth i wella ansawdd y gofal a ddarperir ar gyfer unigolion yn y gymuned  mae'n angenrheidiol i bawb sy'n gweithio gyda phlant ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed gael gwiriad troseddol o'r enw **GWIRIAD DATGELU**.

Er mwyn cael gwiriad o gofnod troseddol, hynny yw gwiriad datgelu, bydd yn rhaid i chi dalu £44 – bydd hyn yn cael ei dalu i diwtor cwrs eich mab/merch yn ystod ei raglen/ei rhaglen sefydlu.  Mae'n bwysig nodi **NA FYDD** modd iddynt fynychu lleoliadau gwaith heb gyflawni gwiriad datgelu.

Dyma'r dulliau adnabod sy'n cael eu hawgrymu gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (DBS):

- Pasport dilys
- Tystysgrif Eni wreiddiol y DU
- Cyfriflen cerdyn credyd
- Slip Cyflog
- Trwydded Yrru'r DU
- Cerdyn Adnabod gyda Ffotograff
- Cerdyn NHS
- Rhif Yswiriant Gwladol.

**DSRhaid i UN o'r dulliau adnabod gynnwys eich cyfeiriad post presennol**

**CANLLAWIAU AR GYFER CWBLHAU'R FFURFLEN DBS**

Allwch chi helpu'ch mab/merch wrth gwblhau'r ffurflen hon os gwelwch yn dda:

**GWNEWCH YN SIWR OS GWELWCH YN DDA EICH BOD CHI'N**

- darllen y nodiadau cymorth ar glawr blaen y ffurflen
- cwblhau'r ffurflen gan ddefnyddio inc DU
- dod â'r dystiolaeth angenrheidiol (o'r rhestr uchod) yn ogystal â llungopïau i'r diwrnod cofrestru
- dod â thaliad o £44 **WRTH GAEL EICH GOFYN AMDANO** yn ystod y cyfnod sefydlu

Yr eiddoch yn gywir

**Kelly Sherwood**
Pennaeth Ysgol: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant